# LC1293

| ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR DEDDFAU | LEGISLATION COMMITTEE REPORT |
|---|---|

## The Plant Health (Wales) Order 2006

Mae'r Gorchymyn hwn yn dirymu ac yn cydgrynhoi'r diwygiadau i'r Plant Health (Great Britain) Order 1993. Mae'r Gorchymyn hefyd yn rhoi nifer o Gyfarwyddebau Ewropeaidd ar waith sy'n diwygio Cyfarwyddebau'r Cyngor 2000/29/EC a 2002/89/EC. Mae Cyfarwyddeb 2000/29/ED yn sefydlu'r system iechyd planhigion Cymunedol sy'n cynnwys camau i warchod rhag cyflwyno organebau sy'n newidiol i blant neu gynhyrchion planhigion yn y Gymuned, a'u lledaenu o fewn y Gymuned.

## Rheol Sefydlog 11.7

Mae'r pwyntiau canlynol wedi'u nodi o dan Reol Sefydlog 11.7

Nid yw'r defnydd o'r gair "must" yn erthyglau 26(3), 27(5) a 29(3) yn briodol oherwydd nid yw'n cyfleu'r ffaith bod yn rhaid i berson sy'n cyflawni gweithred neu weithgaredd fod wedi bodloni rhai amodau penodol cyn cyflawni'r weithred honno neu'r gweithgaredd hwnnw, neu fod yn fodlon bod rhai amodau penodol yn gymwys cyn y gellir cyflawni'r weithred honno neu'r gweithgaredd hwnnw. Byddai'r gair "may" yn fwy priodol yn y cyd-destun hwn. [Rheol Sefydlog 11.7 ]

Gellir cywiro'r mân wallau drafftio hyn trwy Femorandwm Cywiriadau.

Bydd y Gorchymyn yn cael ei wneud yn Saesneg yn unig. Cafwyd ar ddeall, oherwydd natur dechnegol iawn, a hyd y Gorchymyn, ynghyd â nifer gyfyngedig y bobl fydd yn ei ddefnyddio yng Nghymru, nad yw'n rhesymol ymarferol gwneud y Gorchymyn yn Gymraeg ac yn Saesneg. [Rheol Sefydlog 11.7(viii)]

## Sylwadau

Dim

## David Melding AC

Cadeirydd y Pwyllgor Deddfau

## 6 Mehefin 2006